# Y Senedd

Hwn yw prif adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Does dim rhaid talu i fynd i mewn.

Weithiau gall fod yn brysur iawn, yn enwedig os oes digwyddiad yn cael ei gynnal. Byddai'n syniad da ffonio'n llinell wybodaeth ar 0845 020 5500 neu 04492 523 200 i holi a fydd digwyddiad yn cael ei gynnal pan rydych yn bwriadu ymweld â'r Senedd. Gallwch ffonio'r rhifau hyn hefyd i archebu taith o amgylch yr adeilad.

Mae'r Senedd yn brysur pan fydd Aelodau'r Cynulliad yn cyfarfod rhwng dydd Llun a dydd Iau. Mae'n dawelach ar ddydd Gwener fel arfer.

Mae'n adeilad golau iawn a gall fod yn swnllyd iawn.

## Cyrraedd - diogelwch

Pan gyrhaeddwch y Senedd, bydd yn rhaid ichi fynd drwy'r system diogelwch. Mae'n bosibl y bydd swyddog heddlu wrth y ddesg diogelwch hefyd. Bydd angen ichi wagu'ch pocedi a rhoi popeth mewn blwch, a rhoi'ch côt a'ch bag drwy'r peiriant sganio. Cewch eich eiddo'n ôl yr ochr arall i'r peiriant sganio. Ni chewch ddod â rhai eitemau, fel cyllyll, gynnau neu sisyrnau i'r adeilad. Caiff eitemau o'r fath eu cymryd oddi arnoch a'u rhoi'n ôl ichi, os bydd hynny'n briodol, wrth ichi adael yr adeilad.

Bydd angen ichi gerdded drwy fwa. Mae'n bosibl y bydd yn canu os oes gennych unrhyw beth wedi'i wneud o fetel. Os yw'n canu, bydd angen ichi sefyll ar fat arbennig lle bydd aelod o'n tîm diogelwch yn chwifio ffon o gwmpas eich corff i weld beth oedd yn gyfrifol am wneud i'r bwa ganu. Ni fydd y ffon yn cyffwrdd â'ch corff.

Os oes gennych chi, neu rywun sy'n ymweld gyda chi, awtistiaeth, gallwch ofyn i'r swyddogion ddiffodd y sŵn.

## Y Neuadd

Dyma brif fan cyhoeddus y Senedd. Os oes digwyddiad yn cael ei gynnal pan fyddwch yn ymweld â'r Senedd, bydd y Neuadd yn brysur iawn ac yn swnllyd iawn. Bydd bwyd a diod yn rhai o'r digwyddiadau hyn. Oni bai'ch bod yn cael gwahoddiad i wneud hynny, peidiwch â chymryd bwyd na diod. Llechfaen yw llawr y Senedd ac mae'r waliau'n wydr. Mae hyn yn golygu y gall yr adeilad fod yn olau iawn ac yn swnllyd iawn.

Mae desg y dderbynfa lle gallwch ofyn i staff am wybodaeth. Mae system dolen sain yma ar gyfer pobl fyddar sy'n defnyddio cymorth clyw.

## Orielau cyhoeddus

Gallwch fynd i'r orielau i wylio Aelodau'r Cynulliad wrth eu gwaith yn eu cyfarfodydd. Gall yr orielau fod yn dywyll ac wrth edrych i lawr ar y cyfarfod gall fod yn anghyfforddus i'r rhai sy'n gallu teimlo'u benysgafn. Mae system dolen sain ym mhob oriel a lle i'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn.

Gallwch wylio'r cyfarfodydd ar sgriniau. Gallwch gyffwrdd â'r sgriniau hyn. Gallwch ddefnyddio'r clustffonau sydd ar gael i wrando ar yr hyn sy'n digwydd, ond ni allwch eu cymryd o'r ystafell.

Bydd rhwystr ar draws y fynedfa os na chaniateir ichi fynd i'r oriel.

Ni chaiff y cyhoedd:

– fod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau;

– peri tramgwydd i ymwelwyr eraill;

– siarad yn uchel neu darfu ar gyfarfod mewn unrhyw ffordd;

– dod â bwyd neu ddiod i'r oriel.

## Toiledau

Mae gennym doiledau gwahanol i ymwelwyr eu defnyddio:

– Mae toiledau dynion a merched yn cynnwys cwibicl mwy ar gyfer y rhai sy'n cael trafferth symud.

– Yn ein toiled Canging Places mae gwely i newid oedolyn, teclyn codi a thoiled hygyrch y gellir trosglwyddo iddo o'r dde neu'r chwith.

– Mae gennym ddau doiled ychwanegol i'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn, y naill i drosglwyddo o'r dde a'r llall i drosglwyddo o'r chwith.

– Mae toiled hygyrch yn yr ystafell newid babanod hefyd.

– Nid oes tyweli papur yn y toiledau ac mae'r peiriannau sychu dwylo'n swnllyd iawn.

## Oriel

I fyny'r grisiau, mae'r Oriel. Mae amrywiaeth o seddau ar gael a sgriniau y gallwch eu cyffwrdd. Hefyd mae siop, caffi ac oriel gelf. Ni chewch gyffwrdd â'r eitemau yn yr oriel gelf.

O'r lefel hon, gallwch edrych i lawr i'r Siambr. Gallai hyn fod yn anghyfforddus i'r rhai sy'n gallu teimlo'n benysgafn.

## Larymau

Bob dydd Mawrth a dydd Mercher am 13.25 a 13.30 mae larwm ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn canu'n uchel. Efallai y byddai'n well gennych osgoi ymweld â'r Senedd ar yr adegau hyn. Os bydd y larwm yn canu ar unrhyw adeg arall, bydd aelod o'r staff yn dweud wrthych beth i'w wneud a lle i fynd.

## Lle tawel

Os oes angen ichi fynd i le tawel, holwch yn y dderbynfa.